

Wales International Festival of Photography
Gŵyl Ryngwladol Ffotograffiaeth Cymru

–Diffusion



diffusionfestival.org

**ADRODDIAD AM
DDIGWYDDIAD
TROBWYNT –
DIFFUSION 2021**

TURNING

POINT



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

**ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED**



**Cymru
Wales**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Crynodeb o'r Digwyddiad

Cafodd pumed gŵyl eilflwydd Diffusion ei chynnal ar adeg pan oedd y celfyddydau'n dod allan o effeithiau gwaethaf y pandemig, ac roedd angen i gynlluniau Ffotogallery ystyried trefniadau wrth gefn rhag ofn na fyddai digwyddiadau ac arddangosfeydd ffisegol yn bosibl. Roedd pwyslais cynyddol ar weithgareddau ar y tir cyhoeddus, yn enwedig yng Nghaerdydd a Chasnewydd, a llai o bwyslais ar safleoedd ffisegol ar gyfer arddangosfeydd, er bod llawer ohonyn nhw'n unedau mwy oedd yn gallu dangos gwaith mwy o artistiaid a chynnal mwy o weithdai a digwyddiadau cyfranogol. Roedd yn rhaid i ni fod yn arloesol o ran y gwaith roedden ni'n ei ddangos, ymhle roedden ni'n ei ddangos, a'r ffocws ar adeiladu partneriaethau newydd mewn gwahanol gymunedau. Er gwaethaf y cyfyngiadau hynny, llwyddwyd i gyflwyno gwaith gan fwy na 60 o artistiaid o bum cyfandir, gan fynd i'r afael yn dda â'n hymrwymiad i sicrhau amrywiaeth, cynhwysiad a datblygiad artistiaid ac arferion celfyddydol yng Nghymru.

Ar gyfer y Diffusion hwn, ffurfiodd Ffotogallery bartneriaeth ag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol, rhanbarthol a rhyngwladol i gyd-ddyfeisio a darparu tymor o arddangosfeydd, digwyddiadau'r ŵyl a phrosiectau ymgysylltu cyhoeddus oedd yn dwyn ynghyd waith lens a ffotograffiaeth gyfoes rhagorol o bob cwr o'r byd ac arddangos cyrff cyffrous newydd o waith a ddatblygwyd yng Nghymru. Roedd canolbwynt y gweithgareddau yng Nghaerdydd a Chasnewydd, ac roedd teithiau Diffusion a'r gweithgareddau allgymorth yn estyn allan i Lanelli, Tyddewi a Bro Morgannwg. Ymhellach i ffwrdd, roeddem yn cyflwyno 'Go Home Polish' gan Michal Iwanowski yn Fotosommer Stuttgart, yn rhan o fenter Cymru yn yr Almaen 2021.

Cawsom 49,508 o ymwelwyr unigryw yn ein harddangosfeydd a'n digwyddiadau (a 1.9 miliwn pellach yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y tir cyhoeddus). Rhoesom

65 o weithdai a sesiynau ymgysylltu gyda 4129 o gyfranogwyr.

Thema'r ŵyl oedd Trobwynt – "adeg pan mae newid tyngedfennol yn digwydd mewn sefyllfa, yn enwedig un â chanlyniadau buddiol". Mae cyfnodau o ansicrwydd yn aml yn darparu'r momentwm ar gyfer newid cadarnhaol. Roedd llesiant, gwytnwch, mynediad a chynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol, cydlyniad cymunedol a chyfrifoldeb amgylcheddol yn llinynnau oedd yn cydblethu drwy'r prosiect ac a arweiniodd ein partneriaethau a'n penderfyniadau ynghylch y rhaglenni.

Yn ogystal ag arddangosfeydd a digwyddiadau i ddathlu gallu ffotograffiaeth a'r ddelwedd ddigidol i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ac ennyn eu diddordeb, roedd Diffusion yn arddangos y defnyddiau mwyaf diweddar o dechnolegau ymgolli digidol, ac yn adeiladu ar gysylltiadau cydweithio rhwng artistiaid o Gymru, cynhyrchwyr cyfryngau a chwmnïau sy'n gweithio'n rhyngwladol yn Ewrop, America, India, Awstralia ac Affrica.

Rhodddwyd comisiynau i artistiaid o Gymru ac artistiaid oedd wedi eu seilio yng Nghymru – John Crerar, Hilary Powell, Janire Najera, Gareth Phillips, Abby Poulson, Rhys Webber, Kamila Jarczak, Antonia Osuji, Fez Miah, Dilip Sinha, Justin Teddy Cliffe, Sarah Goodey ac Anna Sellen (the Ink Collective) i archwilio hunaniaeth a phrofiad cyfoes o Gymru a chawsom gyfle i ddangos gwaith newydd cyffrous am y tro cyntaf gan Joao Saramago a Richard Jones, Black Mantis, Huw Davies a Sebastian Bustamante.



Trwy bartneru â'r prosiect Pharmabees a Greener Cathays aethom ati i archwilio ffyrdd o ddatblygu mwy o fioamrywiaeth mewn mannau trefol, gyda'r Amgueddfa Genedlaethol ac Oriel y Parc, i archwilio gwell rheolaeth ar dir a môr. Buom yn gweithio'n agos ag Iris a'r gymuned LHDT+ yng Nghymru, a gydag ysgolion, prifysgolion, canolfannau cymunedol a grwpiau celfyddydau yng Nghasnewydd a Chaerdydd yn archwilio materion yn ymwneud â chyfrifoldeb amgylcheddol, amrywiaeth a hunaniaeth.

Yn unol â'r themâu uchod, aethom ati i ddarparu gwaith rhyngwladol cyffrous ar y cyd â Chennai Photo Biennale, PAWA254 yn Kenya, Fotosommer yn yr Almaen, artist sy'n Awstraliad Cenedlaeth Gyntaf – Tim Georgeson, a'r artistiaid o Ogledd America Mary Farmilant a Lydia Panas. Roedd yr arddangosfa More Than a Number, dan ofalaeth Cynhyrchydd Creadigol Ffotogallery, Cynthia Sitei, yn dangos gwaith 12 o ffotograffwyr eithriadol o leoliadau ledled Affrica.

Canlyniadau Allweddol

- Gwaith newydd arwyddocaol gan artistiaid o Gymru ac artistiaid wedi eu seilio yng Nghymru – Truth DeQay gan Richard Jones, Tin Works gan Hilary Powell, Between the Trees gan Abby Poulson, Lions and Unicorns gan John Crerar, El Otono gan Sebastian Bustamante, It's Hard to report a Stolen Bike, Stolen gan Nik Roche, Xennial gan Huw Alden Davies, Women of Newport gan Kamila Jarczak, Welsh from Everywhere gan Rhys Webber, The Betrayal Cycle gan Joao Saramago, A Lockdown Landscape gan Ron McCormick ac I'm afraid of violence, but I've often submitted to it gan Gareth Phillip.
- Yn CULTVR, y dangosiad cyntaf yng Nghymru o Black Mantis – ffilm 360 gradd / gwaith cerdd byw gan Deri Roberts a 4pi Productions
- Gosodwaith digidol, tafluniadau fideo a phrosiectau 3D ar-lein fel Where's My Space?, Truth DeQay gan Richard Jones, Truth in Fire gan Tim Georgeson, The Betrayal Cycle gan Joao Saramago ac Atomic Ed gan Janire Najera's
- Perfformiadau byw gan Zim Voices, Ballet Nimba, Black Mantis, Justin Teddy Cliffe, Joshua Jones a Jo-Jo and the Teeth
- Partneriaethau â Women of Newport, Friars Walk, Barnabas Art House, Gwesty Westgate, Newport Rising, Glan yr Afon, Community House, Theatr Phyllis Maud, Ysgol Gynradd Gaer a'r Cwtch yng Nghasnewydd, ac Iris, CULTVR/4pi, Dewi Sant 2, BayArt, Arcêd y Frenhines, Canolfan Gymunedol Cathays, St Monicas, Oasis, RNIB Cymru, UCAN a Phrifysgol Caerdydd yng Nghaerdydd, gyda'r Amgueddfa Genedlaethol ac Oriel y Parc Tyddewi a gyda Tata Steel a Gwaith Trostre yn Llanelli.
- Partneriaethau rhyngwladol gydag artistiaid a sefydliadau yn India, Affrica, Gogledd America, Awstralia a'r Almaen
- Ymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant drwy brosiectau fel See Differently, Where's My Space?, More than a Number, Motherland, Christopher Street, You Brought Your Own Light, Stiwdio Bortreadau Dros Dro a Women of Newport.
- Deunydd gwych ar y we ac mewn print, gyda chynnwys ysgrifenedig dwyieithog a gweledol cryf, yn creu prysurdeb da ar y we a'r cyfryngau cymdeithasol yn lleol ac yn rhyngwladol.
- Sylw cenedlaethol a rhyngwladol yn y wasg a'r cyfryngau gan Aesthetica, Radio Stuttgart, y BBC, Voice, a Buzz
- Interniaethau creadigol a chyfleoedd i wirfoddoli ac i fwynhau datblygiad curadurol



Turning Point – hunaniaeth brand unigryw ar gyfer Diffusion

Roedd deunydd brandio, ar-lein a phrintiedig Diffusion 2021, a'r rhaglen a'r adnoddau fideo i gyd-fynd ag o'n arbennig o gryf ar gyfer yr ŵyl hon, ac roedd ganddi gynnwys dwyieithog cyfoethog yn y Gymraeg a'r Saesneg gydag amrywiaeth o gyfraniadau gan artistiaid, ysgrifennwyr a churaduron. Yn ogystal â marchnata a hyrwyddo'r ŵyl i gynulleidfaoedd ehangach, dyfnhaodd hyn ymgysylltiad y gynulleidfa â'r gwaith a darparodd waith pwysig i'w basio ymlaen. Am fod y digwyddiad hwn yn ymestyn i nifer o safleoedd yng Nghasnewydd, yn ogystal â Chaerdydd, Tyddewi a Llanelli, newidiwyd disgrifiad y digwyddiad i Ŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Cymru.



Llun: Map Diffusion 2021



Llun: Ymgrych Diffusion 2021



Llun: Map Diffusion 2021

**TURNING
POINT**



Aethom ati i ail wampio gwefan Diffusion, gan greu system lywio fwy syml a rhyngweithiol a phorth ar gyfer yr ŵyl lle buom yn cyflwyno teithiau rhithiol 3D drwy'r arddangosfeydd, darnau gwybodaeth a chyfweliadau ag artistiaid, adolygiadau o'r wasg a sioeau sleidiau. Rydym wedi derbyn adborth cyffredinol gadarnhaol gan artistiaid a fu'n cyfranogi, gan safleoedd partner a sefydliadau cefnogol yn y sector ffotograffig, gan guraduron rhyngwladol oedd yn ymweld, gan gynulleidfaoedd ac mewn adroddiadau yn y wasg a'r cyfryngau.

Beth sy' 'mlaen _____


Arddangosfa _____

Sianel _____

Taith rithwir _____

Wales International Festival of Photography
Gŵyl Ryngwladol Ffotograffiaeth Cymru

-Diffusion




Elfen oedd yn arbennig o bwysig yn yr ŵyl hon oedd presenoldeb cryf y digwyddiad ar dir cyhoeddus. Yng Nghaerdydd, aethom ati i bartneru â Jack Arts a Build Hollywood i greu arddangosiad bwrdd hysbysebu mawr cyfoes ar y stryd oedd yn dangos gwaith nifer o artistiaid ar draws y ddinas. Roedd ein horiel awyr agored yn cynnwys wyth safle ar dir cyhoeddus, oedd yn cynnwys canol y ddinas, ac yn dathlu celfyddyd ffotograffiaeth yng nghalon prifddinas Cymru gyda gweithgareddau meddiannu effeithiol.

Yng Nghasnewydd, mewn partneriaeth â Garrison Barclay Estates, aethom ati i greu arddangosfa oriel tir cyhoeddus 20 metr o hyd ar Commercial Street oedd yn dangos lluniau a hanesion o'r prosiect Women of Newport.



Llun: Meddiannu gan Jack Arts



Llun: Kamila Jarczak's *Women of Newport*



Llun: Meddiannu gan Jack Arts



Effaith

Cofnodwyd 99,016 o ymwelwyr â'r Wyl (49,508 o ymwelwyr unigryw, gan gymryd bod pob ymwelydd wedi ymweld â dau safle arddangos ar gyfartaledd). Yn ôl yr amcangyfrifon, mynychodd 1.9 miliwn o bobl gyflwyniadau ar y tir cyhoeddus (Ffigurau Jack Arts). Roedd y gynulleidfa ar-lein yn cynnwys 47,500 o ymwelwyr unigryw â'r wefan a 82,650 o gysylltiadau ar draws y gwahanol blatfformau cyfryngau cymdeithasol. Rhosom 65 o weithdai a sesiynau ymgysylltu gyda 4129 o gyfranogwyr, yn cynnwys 38 sesiwn a ddigwyddodd y tu allan i Gaerdydd – yng Nghasnewydd, Tyddewi, Llanelli a Bro Morgannwg.

Estynnodd proffil cynulleidfa Diffusion dros saith segment allweddol;

- Cynulleidfaoedd y celfyddydau wedi eu seilio yn lleol ac yng Nghymru
- Ymwelwyr a chyfranogwyr o'r tu allan i Gymru
- Cynulleidfaoedd wedi eu seilio'n lleol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau neu'n mynd i ddigwyddiadau, ond nad ydynt efallai'n cael eu cydnabod fel pobl sy'n mynd i ddigwyddiadau celfyddydol yn rheolaidd
- Cynulleidfaoedd difreintiedig ac anodd eu cyrraedd, yn cynnwys y rheiny sy'n gysylltiedig â'r naw nodwedd warchodedig

- Myfyrwyr ysgol ac Addysg Uwch o amgylch y DU sydd â diddordeb mewn ffotograffiaeth a chelfyddyd gyfoes
- Ffotograffwyr ac artistiaid sefydledig a rhai sy'n dod yn gynyddol amlwg
- Cynulleidfaoedd ar-lein



Cyflawniadau eraill:

- O ran rhaglennu a llwyfannu digwyddiadau, darparodd Diffusion 2021 gynnwys rhagorol a phartneriaethau newydd llawn dychymyg, rhai comisiynau newydd ardderchog ac arddangosfeydd rhyngwladol, a chynnyrch cryf ar-lein ac mewn print.
- Aethom ati i gryfhau statws ac enw da Diffusion ymhellach fel gŵyl ryngwladol fawr a, thros bum gŵyl rydym wedi adeiladu partneriaethau cryf ar draws pum cyfandir
- Llwyddom i sicrhau arian gan Gyngor Celfyddydau Cymru, British Council, Weston Jerwood a Llywodraeth Cymru, ynghyd â buddsoddiad sylweddol gan Creative and Cultural Skills, a nawdd masnachol drwy bartneriaethau â Dewi Sant 2, Arcêd y Frenhines, Garrison Barclay Estates, Jack Arts ac eraill.
- Darparodd y prosiect waith o safon gyson uchel, a chyfatebodd waith curaduro'n ofalus â gwahanol safleoedd a chyd-destunau
- Lledaeniad da o arddangosfeydd a digwyddiadau rhwng canol y ddinas, Butetown a Cathays yng Nghaerdydd, canol dinas Casnewydd a Pilgwenlli, Maendy, Stow Hill ac Ystâd Gaer, Llanelli a Thyddewi.
- Roedd Penwythnosau Agor a Chau Rhyngwladol Diffusion, ynghyd ag wythnos gŵyl Iris, yn ddigwyddiadau ffocal llwyddiannus iawn gyda rhaglen ragorol oedd yn cynnwys lansio arddangosfeydd, perfformiadau byw, symposia, ffair sînu a sgrinio ffilmiau.
- Creodd Oliver Norcott Design frand cryf oedd yn trosglwyddo'n dda i gael ei ddefnyddio mewn hysbysebion ac wrth ddylunio, mewn cynnwys ar-lein ac mewn print. Roedd hyn yn cynnwys yr is-frand Trobwynt arloesol. Cafodd James Reed, myfyriwr pensaernïaeth yn ei flwyddyn derfynol, ei recriwtio fel pensaer/dylunydd 3D i adeiladu'r ystafelloedd rhithiol Where's My Space? gan ddefnyddio meddalwedd o'r enw Sketchup, ac yna Vray i gynhyrchu'r cyfleadau terfynol.
- Recriwtiwyd pobl o'r tu mewn i Gymru - Cynthia Sitei, Cynhyrchydd Creadigol, Ellen Moon, Cydlynnydd Casnewydd, chwe interniaeth creadigol chwe mis gan Kickstart a dau interniaeth pellach, amrywiol dechnegwyr llawrydd, interniaid, argraffwyr a chynhyrchwyr cyfryngau oedd oll yn gweithio'n dda yn rhan o dîm estynedig Ffotogallery i gynllunio a darparu Diffusion 2021
- Roedd y thema 'Trobynt' yn amserol ac yn gweithio'n dda ar nifer o lefelau – mewn perthynas â dethol gwaith, ei gyflwyno, ymgysylltu'n ddigidol, cydweithio ar draws y cyfryngau, trafodaethau ac ysgrifennu/ adolygiadau
- Roedd y cynnwys ar y we'n gryf, yn cynnwys yr hyn oedd yn y fideos, y teithiau 3D drwy'r arddangosfeydd, y cyfweiliadau ag artistiaid a'r ffordd y meddianwyd instagram
- Penodwyd 42 o wirfoddolwyr gennym ac 8 intern ar gyflog, gan elwa o raglen Kickstart Llywodraeth y DU.



Dyma nodau ac amcanion Diffusion:

- darparu gŵyl ffotograffiaeth ryngwladol eilflwydd yn llwyddiannus mewn oes ddigidol
- dod â gwaith cyfoes rhagorol at ei gilydd o bob rhan o'r byd, yn ogystal ag arddangos cyrff newydd cyffrous o waith a ddatblygwyd yng Nghymru
- darparu digwyddiad sy'n gwella enw da rhyngwladol Caerdydd a Chymru fel canolfan ar gyfer celf, y cyfryngau a dylunio cyfoes
- gosod safonau newydd mewn defnyddio ffotograffiaeth a thechnoleg creadigol i gyrraedd cynulleidfaoedd amrywiol ac ennyn eu diddordeb mewn ffyrdd arloesol
- gweithredu fel catalydd ar gyfer cydweithio tymor hir rhwng artistiaid, dylunwyr a chynhyrchwyr creadigol eraill, cwmnïau cyflwyno a chynhyrchu, amgueddfeydd ac orielau, y sector addysg, y cyfryngau a'r diwydiannau creadigol
- creu platfform cryf yng Nghymru ar gyfer cydweithio lleol, cenedlaethol a rhyngwladol
- datblygu cyrhaeddiad ac effaith gwaith Ffotogallery gan annog symudedd artistiaid, cyfnewid rhyng-ddiwylliannol a datblygiad marchnadoedd newydd ar gyfer ffotograffiaeth a delweddu digidol

Credwn ein bod wedi cyflawni'r nodau hyn i gyd yn dda yn 2021. Yn ogystal ag ansawdd y gwaith a'i gyflwyniad, crëodd yr ŵyl gyfleoedd gwaith newydd i artistiaid fel dysgwyr, dylunwyr gwe a phrint, cynhyrchwyr fideo, technegwyr, argraffwyr, fframwyr, labordai ffotograffau, cerddorion, ysgrifenywyr a churaduron.



Partneriaethau

Roedd partneriaethau lleol gyda Women of Newport, Friars Walk, Barnabas Art House, Gwesty Westgate, Newport Rising, Glan yr Afon, Community House, Theatr Phyllis Maud, Ysgol Gynradd Gaer a'r Cwtch yng Nghasnewydd, ac Iris, CULTVR/4pi, Dewi Sant 2, BayArt, Arcêd y Frenhines, Canolfan Gymunedol Cathays, St Monicas, Oasis, RNIB Cymru, UCAN a Phrifysgol Caerdydd yng Nghaerdydd, oll yn bwysig o ran ymestyn cyrhaeddiad ac effaith yr ŵyl ac ennyn diddordeb cynulleidfaoedd newydd ac amrywiol. Mae'r un peth yn wir am Amgueddfa Cymru, a'r cyflwyniad Tir/Môr yn Oriel y Parc yn Nhyddewi a gyda Tata Steel a Gwaith Trostre mewn perthynas â gwaith preswyl Hilary Powell.

Ar gyfer Diffusion, roedd comisiynu artistiaid cynyddol amlwg a llawrydd, gwirfoddoli ac interniaethau gyda chyflog oll yn ddulliau hanfodol i artistiaid a ffotograffwyr yng Nghymru allu datblygu eu harferion proffesiynol. Diolch i'n partneriaeth â'r asiantaeth genedlaethol Creative and Cultural Skills rydym wedi gallu recriwtio chwe interniaeth ar dâl yn lleol gan Kickstart yn Ne Cymru mewn rolau fel cynorthwyydd arddangosfeydd a digwyddiadau, cynorthwyydd technegol, cynhyrchydd digidol, cynorthwyydd gweinyddol a chynorthwyydd marchnata. Aethom ati i greu dau interniaeth arall gyda thâl a recriwtio 42 o wirfoddolwyr. Buom yn gweithio gyda nifer o bobl greadigol ac artistiaid llawrydd fel Simon Regan, Gilbert Sabiti, Zim Voices, Ballet Nimba, Oliver Norcott a James Reed, yn ogystal â'r technegwyr y gallem ymddiried ynddynt bob amser, Alan Moss a Paul Hill.



Llun: Archifau Tun



Llun: Hilary Powell

O fewn cyfyngiadau'r amser byr oedd gennym i baratoi, llwyddwyd i ffurfio amrywiaeth mawr o bartneriaethau newydd yng Nghasnewydd, Caerdydd a Llanelli, fel y dywedwyd uchod. Galluogodd hyn i ni gyrraedd cynulleidfaoedd eang ac amrywiol o ran eu diwylliant ac ennyn eu diddordeb. Roedd y rhain yn cynnwys ffotograffwyr oedd â nam ar eu golwg, unigolion o gymunedau Affricanaidd, Dwyrain Canol, Cwrdaidd/Romani ac Asiaidd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches, artistiaid a chynulleidfaoedd LHDT+, pobl ifanc gydag anawsterau dysgu a theuluoedd a phlant oed ysgol.

Am ein bod wedi datblygu ein gwaith partneriaeth gydag Iris dros bedair gŵyl Diffusion, penderfynwyd y byddem yn rhannu safle yng nghanol dinas Caerdydd ar gyfer digwyddiadau Diffusion/Iris a chyflwyno Christopher Street 1976 Sunil Gupta, You Brought Your Own Light Allie Crewe a detholiad o Ffilmiau Gorau Iris. Yn ystod gŵyl Iris cawsom 'awr goctêls' bob dydd gyda seinyddion a cherddoriaeth fyw.

Roedd y bartneriaeth â Gwesty Westgate a Newport Rising yn uchafbwynt arall, a chanlyniad hon oedd Ffair Sînau/Ffotolyfrau, trafodaeth panel a chyhoeddiad 'Newport City of Subculture', barddoniaeth, gweithdai gwneud sînau, sgrinio ffilmiau a cherddoriaeth fyw.




Llun: Digwyddiad Iris



Llun: More Than A Number

Zim Voices a Ballet Nimba, oedd wedi eu seilio'n lleol, oedd yn darparu'r gerddoriaeth, y dawnio a'r canu ar gyfer ein Diwrnod Affrica a digwyddiad lansio Diffusion, oedd yn cyd-fynd yn berffaith â'r arddangosfa More Than a Number a lansiad y plattfform digidol Where's My Space? a ddatblygwyd mewn partneriaeth â PAWA254 yn Kenya.

O ran y prosiectau oedd yn digwydd dros gyfnod hirach o amser, fel comisiynau Dychmygu'r Genedl-wladwriaeth gyda Chennai Photo Biennale, ein gwaith Cymru yn yr Almaen 2021 gyda Fotosommer yn Stuttgart, Where's My Space?, prosiect preswyl Tin Works Hilary Powell yn Tata Trostre a More Than a Number, roedd y rhain yn llwyddiannus yn artistig ac yn cynnig lefelau uwch o ddysgu ac ymgysylltu. Y peth allweddol a ddysgwyd oedd bod Diffusion yn elwa o amseroedd paratoi hirach a chydweithio hirdymor sy'n gadael i ni wneud y gwaith cynllunio a gweithio drwy'r broses greadigol heb bwysau'r orfodaeth i ddarparu canlyniadau ar unwaith.



Dysgu ac Ymgysylltu

Roedd rhaglen estynedig o ddysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn digwydd ochr yn ochr â'r ŵyl ac roedd hon yn cynnwys gweithdai dan arweiniad artistiaid, trefniadau preswyl i artistiaid, digwyddiadau a sgysiau ar-lein ac wyneb yn wyneb, teithiau wedi'u tywys i grwpiau ysgol a choleg ac amrywiol ddigwyddiadau cyfranogol, gyda chyhoeddiadau ac adnoddau dysgu dwyieithog Cymraeg a Saesneg.

Yng Nghasnewydd, gallem ddarparu amrywiaeth o brosiectau cyfranogol fel Tourist in Between gan Justin Teddy, y Stiwdio Bortreadau Dros Dro, y gyfres Coffee and Laughs gydag Antonia Osuji a Maryam Wahid, Women of Newport, a Newport Lab. Cafodd y prosiect olaf hwn ei arwain gan wyth cyn-fyfyriwr o gwrs Ffotograffiaeth Ddogfennol Casnewydd 2021-2016, Sebastian Bruno, Clementine Schneidermann, Lua a Bandia Ribeira, Michael Allberry, Daragh Soden, Fergus Thomas ac Isaac Blease, ac yn arddangos am y tro cyntaf roedd gwaith ar thema Casnewydd yr oedden nhw wedi ei gynhyrchu fel myfyrwyr. Yn ystod yr arddangosfa, dychwelodd yr artistiaid i Gasnewydd a gweithio gydag aelodau o'r gymuned leol i greu gweithiau ffotograffig newydd a gafodd eu cyflwyno ochr yn ochr â delweddau hŷn.



Llun: Ffair Sinau Diffusion

Enw Da Diffusion

Yn dilyn pum gŵyl eilflwydd lwyddiannus, mae Diffusion - Gŵyl Ffotograffiaeth Ryngwladol Cymru wedi ei sefydlu ei hun fel digwyddiad mawr nodedig erbyn hyn sy'n datblygu ac yn cyfrannu at y weledigaeth y bydd 'Cymru'n cael ei chydabod fel cyrchfan cyson ragorol ar gyfer digwyddiadau mawr'. Rhan allweddol o'i henw da yw ei bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a hirsefydlog mawr ar draws saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef:

- **Cymru Lewyrchus** – Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol a charbon-isel sy'n cydnabod cyfyngiadau'r amgylchedd byd-eang ac sydd felly'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn ôl eu cyfran, sy'n datblygu poblogaeth fedrus sydd wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd i gael swyddi cyflogedig
- **Cymru Gydnerth** – Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau gweithredol iach sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd)
- **Cymru lachach** – Cymdeithas lle mae lles ffisegol a meddyliol pobl ar ei orau a lle mae pobl yn deall y dewisiadau a'r ymddygiadau sydd o fudd i ddyfodol eu hiechyd
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** – Cymdeithas sy'n galluogi i bobl gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir economaidd-gymdeithasol a'u hamgylchiadau).
- **Cymru o Gymunedau Cydlynus** – Gymunedau sy'n atyniadol, hyfyw a diogel ac sydd wedi eu cysylltu'n dda
- **Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu** – Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn diogelu ei diwylliant, ei threftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau a chwaraeon a hamdden.




Mae gan Diffusion ffocws rhyngwladol ac hefyd mae wedi ei gwreiddio'n gadarn yn sîn ffotograffiaeth a chyfryngau cyffrous a bywiog Cymru. Mae Diffusion yn cyfleu golwg hyderus a chryf o Gymru fel ffocws ar gyfer creadigedd ac arloesedd, gan fanteisio ar y gronfa enfawr o dalent artistig a thechnegol sydd gennym yma. Mae Diffusion yn dangos i'r byd bod Cymru'n ganolfan ar gyfer dyluniad, cyfryngau a chelfyddyd gyfoes, ac mae hefyd yn arddangos diwylliant, traddodiadau a hunaniaeth amlwg y genedl.

Mae Diffusion yn brosiect trawswladol sy'n ymwneud â'r diwydiannau creadigol a'r economi wybodaeth ac mae'n cael ei darparu mewn partneriaeth â sefydliadau Ewropeaidd a rhyngwladol eraill. Mae Diffusion yn cynnig ffyrdd newydd o animeiddio lleoliadau a safleoedd gwag mewn amrywiol leoedd, gan wella twristiaeth ddiwylliannol ac enw da prifddinas Cymru fel canolfan ryngwladol i'r celfyddydau, diwylliant ac adloniant.

Mae Diffusion hefyd yn gwneud cyfraniad sylweddol i Gontract Diwylliannol newydd Llywodraeth Cymru o ran datblygu perthynas newydd a chryfach gyda sefydliadau a rhwng sefydliadau a hyrwyddo twf cynhwysol. Mae hyn yn cynnwys ehangu amrywiaeth y bobl hynny sy'n mwynhau, yn cyfranogi ac yn gweithio yn y celfyddydau. Mae hefyd yn cynnwys sicrhau bod mwy o waith ar gael gyda chyflog priodol (gwaith teg) ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol ac ymrwymiad llawn i egwyddorion cydweithio a bod â chyfrifoldeb cymdeithasol.

I grynhoi, mae Diffusion yn sicrhau ei enw da am yr uchod drwy:

- greu a chyflwyno gweithgareddau celfyddyd o safon uchel
- hybu amrywiaeth a chynhwysiad ar bob lefel
- weithio gyda phobl ifanc, yn arbennig y rheiny o gefndiroedd incwm isel neu sy'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag gweld eich gwaith
- rhaglenni arloesol a mentrau datblygu cynulleidfa strategol mewn ardaloedd o amddifadedd uchel
- rhaglenni wedi eu targedu i bobl ifanc, teuluoedd ar incwm isel a chartrefi heb waith
- cyflwyno gwaith artistig y tu allan i'r DU
- prosiectau ymchwil a datblygiad digidol arloesol
- ymgysylltu â rhwydweithiau, digwyddiadau, arddangosiadau neu gynadleddau sydd â dimensiwn rhyngwladol



Llun: Mary Farmilant's Natura Consonat
© Simon Regan

Wales International Festival of Photography
Gŵyl Ryngwladol Ffotograffiaeth Cymru

–Diffusion



diffusionfestival.org

Ysgrifennwyd gan:
David Drake
Cyfarwyddwr,
Ionawr 2022

TURNING

POINT



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN
Y LOTERI
LOTTERY FUNDED



Cymru
Wales



Lywodraeth Cymru
Welsh Government